



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Rheoliadau Adeiladu (Cymru)

Cylchlythyr

Rhif y Cylchlythyr:		Dyddiad cyhoeddi:	DD / MM / BBBB
Statws:			
Teitl:			
Cyhoeddwyd gan:			
Cyfeiriwyd at:	Anfonwch ymlaen at:		
Crynodeb:			
I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:			
	Llinell Uniongyrchol:		
	E-bost:		
	Gwefan:		

DEDDF ADEILADU 1984

Cynlluniau Yswiriant ar gyfer Arolygwyr Cymeradwy yn unol ag adran 47(6) o Ddeddf Adeiladu 1984

CYFLWYNIAD

1. Rwy'n ysgrifennu atoch i'ch hysbysu bod Gweinidogion Cymru wedi cymeradwyo'r polisïau yswiriant indemniad proffesiynol ac yswiriant atebolrwydd cyhoeddus a gynigir gan Howden Insurance Brokers Limited, sy'n masnachu o dan yr enw Howden Windsor, a fydd yn ychwanegol at y cynlluniau yswiriant cymeradwy sydd eisoes yn cael eu cynnig gan yswirwyr ar gyfer arolygwyr cymeradwy yng Nghymru. Bydd y cwmni'n gymeradwy o 1 Mawrth 2014 a bydd yn parhau'n gymeradwy hyd nes y bydd Gweinidogion Cymru'n cymryd camau i'r gwrthwyneb.

CYMERADWYAETH NEWYDD

2. Er mwyn sicrhau cymeradwyaeth mae'n rhaid i gynlluniau yswiriant gydymffurfio â chyfres o feini prawf. Mae Gweinidogion Cymru wedi cymeradwyo, o dan adran 47(6) o Ddeddf Adeiladu 1984, gynllun Howden Insurance Brokers Limited, sy'n masnachu o dan yr enw Howden Windsor, fel cynllun sy'n bodloni'r meini prawf. Ceir copi o'r hysbysiad cymeradwyo ar wefan Llywodraeth Cymru:
<http://cymru.gov.uk/topics/planning/buildingregs/?lang=cy>

Caiff manylion cyswllt Howden Windsor eu nodi yn **Atodiad A**.

CYMHWYSO CYNLLUN YSWIRIANT

3. Mae'r gymeradwyaeth yn berthnasol i waith adeiladu yng Nghymru, ond nid gwaith adeiladu ar adeiladau ynni a eithrir¹ yng Nghymru neu adeiladau'r Goron neu ymgwymerwyr statudol yng Nghymru, y ceir hysbysiadau cychwynnol ar eu cyfer o dan adran 47(1) o Ddeddf Adeiladu 1984 gan arolygwyr a gymeradwyir o dan adran 49 o Ddeddf Adeiladu 1984 a rheoliad 4 a 5 o Reoliadau Adeiladu (Arolygwyr Cymeradwy etc) 2010.

CYNLLUNIAU YSWIRIANT ERAILL CYMERADWY AR GYFER AROLYGWYR CYMERADWY

4. Ar hyn o bryd ceir dau gynllun yswiriant cymeradwy ar gyfer arolygwyr cymeradwy. Mae cynllun yr NHBC (Cyngor Cenedlaethol Adeiladu Tai) yn berthnasol i'w harolygwyr hwy yn unig ac mae Griffiths and Armour yn cynnig yswiriant i bob arolygwr cymeradwy ar y farchnad agored.

¹Fel y'i diffinnir gan yr Atodlen i Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) (Rhif 2) 2009 (O.S. 2009/3019).

YMHOLIADAU

5. Os oes gennych unrhyw ymholiadau am y Cylchlythyr hwn, dylech eu cyfeirio at:

Colin Blick,
Rheoliadau Adeiladu,
Llywodraeth Cymru,
Rhyd-y-car,
Merthyr Tudful, CF48 1UZ.

Ffôn: 03000 628144.

E-bost: Colin.Blick@wales.gsi.gov.uk.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Francois Samuel'. The signature is written in a cursive style with a large initial 'F'.

Francois Samuel
Pennaeth Rheoliadau Adeiladu

Atodiad A

Manylion darparwr yswiriant ar gyfer Arolygwyr Cymeradwy a gymeradwyir o dan A. 47(6) o Ddeddf Adeiladu 1984

Enw a Chyfeiriad	Rhif Ffôn/e-bost	Daw'r gymeradwyaeth i rym ar
Howden Insurance Brokers Limited² 71 Fenchurch Street, London, EC3M 4BS	Rhif Ffôn: 020 7133 1400 stephen.dando@howdenwindsor.com	1 Mawrth 2014

² Cwmni wedi'i awdurdodi gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol i gynnig cynnyrch yswiriant â'r rhif awdurdodi 312584.